

## Nodiadau o Gyfarfod Tynged yr Iaith yn Sir Gaerfyrddin (17/1/15)

### **Addysg**

Sylwadau o'r llawr:

1. Mae bwlch yn yr argymhellion o ran darpariaeth Gymraeg i blant ag anghenion addysgol arbennig.
2. Er mwyn marchnata'r Gymraeg yn fwy dylid ystyried dysgu ieithoedd eraill hefyd.

Blaenoriaethau maes addysg:

Addysg Cynradd - Sicrhau fod gweithredu'r holl argymhellion sydd i'w cwblhau erbyn diwedd Ebrill 2015.

Addysg uwchradd a phellach - Gosod nodau newydd o ran amser cwblhau, yn lle bod manylion yn niwlog.

Mae diffyg strategaeth o ran defnyddio ysgolion pentrefol Cymraeg i adfywio'r cymunedau. Nododd Cefin Campbell fod hyn yn golygu fod y cymunedau oll yn heneiddio o ganlyniad.

### **Cynllunio**

Sylwadau o'r llawr

1. Tai a Chynllunio:

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae CDLI Sir Gaerfyrddin wedi ei dderbyn a 15,000 o dai i'w hadeiladu ond dim ond 4,000 o gynnydd mewn poblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

- Rhaid adeiladu tai neu bydd pobl yn cael eu gwthio allan o'u cymunedau ond dylai'r niferoedd tai ddod o'r gwaelod lan.
- Mae pryder am ardaloedd penodol e.e yng Nghrosshands a Rhydaman bwriedir codi 2500 o dai; bydd tref maint Aberteifi yn cael ei hadeiladu ar gyrion Caerfyrddin. Mae cwmp amlwg mewn rhai wardiau o ran siaradwyr Cymraeg – bydd hyn yn gwaethgu.

Nododd Calum Higgins mai pobl yn symud allan yw'r broblem nid pobl yn symud mewn. Bydd S4C yn dod a swyddi i Gaerfyrddin sy'n golygu bydd mwy o bobl yn byw yn yr ardal, bydd angen tai ar y bobl yma.

2. Ceisiadau Cynllunio:

- Un cyfaddawd a wnaed gan y cyngor yn ddiweddar oedd ei wneud yn haws i bobl gael caniatâd cynllunio er mwyn troi hen adeiladau i fewn i dai yng nghefn gwlad. Mae hyn yn llawer mwy buddiol nag adeiladu stadau mawr.

3. Prynu Gwasanaethau:

- Pan fo sgubor yn cael ei droi'n dy mae'r gwaith yn dod i bobl lleol, pan mae cwmnïau yn adeiladu stadau mawr maent yn dod a gweithwyr gyda nhw o Loegr

4. Cynllun Dinas-Ranbarth Abertawe

- Mae panel cynllunio wedi ei sefydlu yn Abertawe fel rhan o'r cynllun Dinas-Ranbarth Abertawe. Mae'r cynlluniau yn cynnwys rhannau o Sir Gar. Mae pob cais yn gorfod mynd drwy'r panel ond mae traean o aelodau'r panel yn anetholedig

Blaenoriaethau Maes Cynllunio:

Yn y tymor byr mae angen i'r Cyngor gydweithio gydag awdurdodau eraill a phwyso ar y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn "ystyriaeth faterol" yn y Bil Cynllunio.

Yn y tymor hirach bydd angen monitro'r CDLI, a sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses adolygu barhaol

### **Iaith y Cyngor / Gweithleoedd Dwyieithog**

Sylwadau o'r llawr:

- Ydy'r Cyngor wedi troi at y Comisiynydd er mwyn cael cymorth i weithredu yn Gymraeg? Dywedwyd er hynny nad yw'r comisiynydd yn cynnig arweiniad bob tro
- Mae diffyg gwersi Cymraeg o fewn y cyngor, mae'r rhain ar gael mewn siroedd eraill
- A ydy'r Cyngor dal yn defnyddio cwmnïau preifat i benodi (headhunting) swyddogion newydd? Ymateb – maent yn derbyn cefnogaeth ganddynt ond ddim yn dylanwadu
- Dylai'r Cymry hyrwyddo'r iaith, os ydy person yn gofyn "do you speak welsh" dylid ateb drwy ddweud "yes but I don't have to" - gall berson benderfynu bod yn Gymraeg neu'n Ddi-Gymraeg

Blaenoriaethau iaith y Cyngor:

Mae angen ymrwymiad clir gan y cyngor eu bod am symud i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn

hytrach na dibynnu ar unigolion i frwydro yn erbyn y drefn.

### **Hamdden**

- Codwyd y pwynt gan sawl person nad oes gwersi nofio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir. Maent ar gael yn Abertawe er enghraifft. Er bod y cyngor yn symud rhywfaint ar hyn mae angen i wersi i gyd fod yn Gymraeg, nid dim ond ar ddiwrnodau arbennig a gallai hyn ddigwydd yn syth nid oes angen pasio deddfwriaeth na dim byd i'w gyflawni.

### **Cyffredinol**

#### Ymddiriedaeth yng nghynlluniau'r Cyngor?

- Ar un llaw mae'r cyngor yn dweud nad oes arian ar gael oherwydd y sefyllfa economaidd ond ar y llaw arall mae ganddynt gynlluniau i adeiladu tai fforddiadwy a ysgolion uwchradd newydd. Ymateb – mae modd newid statws a iaith ysgol yn hytrach nag adeiladu un newydd. Mae arian ar gael ym myd addysg ar hyn o bryd.

#### Gweithredu'r Argymhellion

- Mae rhai argymhellion yn nodi taw “disgwyliadau” sydd ar y cyngor sir yn hytrach na bod unrhyw beth pendant i sicrhau y bydd pethau'n digwydd.
- Pryder fod y cyngor yn mynd i ymestyn pob dyddiad targed er mwyn osgoi gwneud pethau gan ddweud bod dim arian.